Adran Gwaith a Phensiynau

# Gwybodaeth ategol ar gyfer **Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Our reference: **PIP3WER** 03/23

# Cynnwys


1 PIP

**Cyflwyniad**

Tudalen 3


2



**Y ffurflen a'r wybodaeth ategol a anfonwch**

Tudalen 5

3



**Mathau eraill o gefnogaeth**

Tudalen 11

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Taliad Annibyniaeth Personol yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.




Mae'n helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol y mae'n rhaid i chi eu talu pan fydd gennych afiechyd tymor hir neu anabledd.

**PIP**

Weithiau gelwir Taliad Annibyniaeth Personol yn PIP.



Gall PIP eich helpu i fod yn fwy egnïol a gwneud mwy ar eich pen eich hun.




Mae'r daflen hon yn dweud wrthych am y **wybodaeth ategol** y dylech ei hanfon gyda'ch ffurflen.

Am fwy o daflenni Hawdd i'w Darllen, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read PIP**.

# 2 Y ffurflen ar gwybodaeth ategol a anfonwch



I gael Taliad Annibyniaeth Personol rhaid i chi lenwi ffurflen a'i anfon atom.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.gov.uk chwiliwch am **Easy Read PIP How to Claim**.



Mae angen i chi anfon unrhyw wybodaeth ategol sydd gennych gyda'r ffurflen.




Gallai anfon eich gwybodaeth ategol helpu i gyflymu eich cais.

Gallai olygu eich bod yn cael penderfyniad yn gynt.

# Gallai'r mathau o wybodaeth ategol i'w anfon gyda'ch ffurflen fod yn:




- Cynlluniau gofal cymdeithasol
- Adroddiad gan weithiwr iechyd proffesiynol
- Rhestr o'r feddyginiaeth rydych yn ei chymryd



- Canlyniadau profion. Pethau fel profion clyw neu olwg





- Datganiadau gan ofalwyr neu aelodau o'r teulu, fel dyddiadur gofalwr.



Gall gwybodaeth ategol ein helpu i:

- Ddeall sut mae’ch cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch chi
- Penderfynwch a allwch, neu na allwch, gael PIP.





Anfonwch y gwahanol fathau o dystiolaeth sydd gennych atom.

Gall hyn gynnwys manylion meddygol neu unrhyw wybodaeth ategol arall.



Gallai gwybodaeth gan berson sydd yn eich cefnogi fod yn ddefnyddiol iawn. Gallai person sy’n eich cefnogi fod yn:

- Nyrs
- Gweithiwr cymdeithasol
- Gofalwr.




Anfonwch gopïau o'r wybodaeth sydd gennych.

Peidiwch ag anfon eich dogfennau gwreiddiol.



Peidiwch â gofyn i'ch meddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol am wybodaeth newydd oherwydd y gallech orfod talu am hyn.




Os oes angen mwy o wybodaeth arnom gan eich meddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol, byddwn yn cysylltu â nhw.




Fel arfer nid oes angen i chi anfon:

- Llythyrau neu gardiau apwyntiadau
- Gwybodaeth gyffredinol am gyflyrau iechyd na meddyginiaethau
- Tocynnau bws neu drên ar gyfer apwyntiadau rydych wedi bod iddynt.



Os oes angen mwy o amser arnoch i wneud eich cais, dywedwch wrthym.

Gallwch ein ffonio am ddim ar:

Ffôn: **0800 121 4433**

Ffôn testun: **0800 121 4493**



Os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 121 4433**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio’r gwasanaeth cyfnewid fideo.

Am fwy o wybodaeth ewch i
[www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip/sut-i-wneud-cais](https://www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip/sut-i-wneud-cais)



Dylech ddal wneud cais os nad oes gennych wybodaeth ategol i anfon atom.

Gallwch ddweud wrthym am eich cyflwr iechyd neu anabledd ar eich ffurflen.

# 3 Mathau eraill o gymorth

Efallai y byddwch yn gallu cael Credyd Cynhwysol os:

- Rydych allan o waith
- Rydych mewn gwaith ac ar enillion isel.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Chredyd Cynhwysol, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Easy Read Universal Credit**.



Gall Credyd Cynhwysol eich helpu hefyd gyda rhai costau tai.

Bydd rhai pobl angen gwneud cais am Fudd-dal Tai o hyd yn lle Credyd Cynhwysol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/budd-dal-tai](http://www.gov.uk/budd-dal-tai)




Efallai y gallwch gael help gyda Threth Cyngor.



Efallai y gallwch gael grant Mynediad at Waith.



Gall grant Mynediad at Waith eich helpu i dalu am newidiadau sydd angen yn eich gweithle i'ch helpu i wneud eich swydd.


Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Mynediad at Waith, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Easy Read Access to Work**.



Os bydd rhywun yn gofalu amdanoch, efallai y gallant gael Lwfans Gofalwr.

I gael mwy o wybodaeth am Lwfans Gofalwr, ewch i www.gov.uk/lwfans-gofalwr




Os oes gennych broblemau ariannol, gallwch gysylltu â'ch:

- Swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol
- Swyddfa Cyngor leol
- Grwpiau help a chymorth lleol.

Am fwy o wybodaeth am Daliad Annibyniaeth Personol, ewch i www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip

I gael mwy o wybodaeth am y budd-daliadau, efallai y gallwch wneud cais amdanynt, ewch i www.gov.uk/browse/disabilities

I ddod o hyd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol, ewch i find-your-nearest-jobcentre.dwp.gov.uk

I ddod o hyd i'ch swyddfa cyngor lleol neu grwpiau help a chymorth, ewch i www.gov.uk/find-local-council

Am help gyda phroblemau arian, ewch i www.moneyhelper.org.uk/cy